# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

St David's Dental Care Ltd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad yr arolygiad: 14 Rhagfyr 2017

Dyddiad cyhoeddi: 17 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-246-8



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ..... 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ..... 6
3. Yr hyn a ganfuom ..... 7

   Ansawdd profiad y claf ..... 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ..... 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..... 17
4. Beth nesaf? ..... 19
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ..... 20

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..... 21

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ..... 22

   Atodiad C – Cynllun gwella ..... 24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd o St David's Dental Care Ltd yn 34a Heol Newydd, Tyddewi, Hwlffordd, Sir Benfro, SA62 6SS, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 14 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod St David's Dental Care Ltd yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac sydd â staff cyfeillgar a phroffesiynol. Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis. Roedd systemau cadarn ar waith i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparu systemau diogel ac effeithiol er mwyn hyrwyddo gofal a thriniaeth cleifion
- Roedd cofnodion clinigol cleifion o safon uchel
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal a thriniaeth o ansawdd uchel ar gyfer ei gleifion
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac yn cael eu cynnal i safon uchel iawn
- Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn effeithiol
- Roedd cefnogaeth a hyfforddiant parhaus yn cael eu darparu ar gyfer y staff

Rydym yn argymell y gallai’r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Cynyddu a gwella'r defnydd o adnoddau Cymraeg
- Prosesau atal a rheoli heintiau
- Cynllunio triniaethau a chyfiawnhad radiograffau
- Tystiolaeth fod yr holl staff yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau craidd
- Darparu adborth i gleifion o ran y gwelliannau a roddwyd ar waith o ganlyniad i awgrymiadau/sylwadau a dderbyniwyd

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae St David's Dental Care Ltd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Tyddewi a'r ardaloedd amgylchynol. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd, rheolwr practis, nyrsys deintyddol, a staff derbynfa/gweinyddol.

Mae’r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth glir fod St David's Dental Care Ltd yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn modd proffesiynol a chynhwysfawr. Roedd yr amgylchedd mewnol o safon uchel iawn ac roedd yr holl agweddau ar gynnal a chadw o fewn yr adeilad yn cael eu cynnal at safon uchel hefyd.

Cadarnhaodd yr adborth a gawsom fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion er mwyn casglu eu safbwyntiau am y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu yn y practis. Gwnaethom dderbyn ymateb rhagorol, gyda 98 o holiaduron cleifion wedi'u cwblhau a'u rhoi i'w hadolygu gennym wrth gynnal yr arolygiad. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion tymor hir yn y practis (a oedd wedi bod yn glaf gyda'r practis ers dros ddwy flynedd). Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae popeth yn y practis yn cael ei redeg yn dda iawn ac rwy'n derbyn y gofal gorau posibl."*
>
> "Practis sy'n cael ei redeg yn dda iawn. Safonau uchel iawn. Bob amser yn bleser dod yma."
>
> "Teimlaf fod yr holl dîm wedi gofalu amdanaf yn dda bob amser. Dw i'n argymell St David's Dental Care i bawb bob amser."
>
> "Practis hapus iawn yw hwn lle rydym yn derbyn y gofal gorau posibl. Mae pawb mor broffesiynol ac yn gyfeillgar hefyd."

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad

oedd modd o wella'r gwasanaeth, ond roedd rhai o'r awgrymiadau gan gleifion yn cynnwys:

> *“Hapus iawn gyda'r gwasanaeth, ond efallai y byddai gwasanaeth deintyddol ychwanegol ar ddydd Sadwrn yn fuddiol."*

## Cadw’n iach

Dywedodd pob un o’r cleifion a lenwodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw ynglŷn â sut y gallent gadw eu ceg a’u dannedd mewn cyflwr iach.

Roedd amrywiaeth dda o adnoddau hybu iechyd / addysg ar gael yn yr ystafell aros ac yn yr ystafelloedd triniaeth.  Roedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd hefyd o ran sefydliadau eraill a allai ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ychwanegol ym maes iechyd. Er enghraifft, roedd taflenni ar gael mewn perthynas â chanser y geg, a manylion cyswllt sefydliadau cymorth arbenigol. Roedd gwybodaeth ac arweiniad ar gael hefyd mewn perthynas ag addysg iechyd, megis rhwydweithiau a sefydliadau i helpu i roi'r gorau i ysmygu. Roedd arwyddion dim ysmygu wedi'u gosod yn strategol y tu mewn i'r adeilad, a oedd yn arddangos bod pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth eiddo di-fwg.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Roedd sylwadau a roddwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn canmol y staff yn cynnwys y canlynol:

> *“Mae’r staff bob amser yn gwrtais, yn llawn gwybodaeth ac yn gyfeillgar, ac maent yn awyddus i’ch helpu chi pan fyddwch yn ffonio mewn argyfwng."*
>
> "Pan fydda i'n ymweld, mae'r staff yn hynod gwrtais a dymunol bob amser. Mae'r nyrsys a'r deintyddion yn hynod ofalgar ac yn rhoi sylw i fy anghenion."
>
> "Mae'r holl staff - y tîm deintyddol a'r rhai sy'n gweithio yn y swyddfa - yn hynod gyfeillgar ac yn gynorthwyol. Maen nhw wastad wedi gwneud ymdrech fawr i drefnu apwyntiadau brys ar fy nghyfer."

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd ystafelloedd i'r staff ac ystafell gyfarfod ar gael lle y gallai'r staff drafod cleifion a'u gofal a'u triniaeth. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle roedd cleifion yn derbyn gofal) yn cael eu cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch ei driniaeth i'r graddau yr oedd yn dymuno, a'i fod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddo.

O'r cleifion hynny a oedd wedi derbyn triniaeth yn y practis, dywedodd y mwyafrif yn yr holiaduron fod cost eu triniaeth yn cael ei gwneud yn glir iddynt bob tro a'u bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Gwnaethom sylwi bod amserau agor y practis yn cael eu harddangos mewn lleoliadau amlwg a bod y rhif ffôn cyswllt ar gyfer cyngor a thriniaeth mewn argyfwng yn cael ei arddangos hefyd. Roedd y wybodaeth hon yn fanwl ar daflen wybodaeth y practis ac fe'i rhoddwyd hefyd ar y neges ar y peiriant ateb. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â'r deintyddion yn y practis wedi'i harddangos yn briodol.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd tua chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu bod yn siaradwr Cymraeg. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hyn wrthym eu bod yn gallu siarad ag aelod o'r staff bob amser yn eu hiaith ddewisol, a nifer fach yn unig o'r cleifion a ddywedodd y gallent ond siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol o bryd i'w gilydd. Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

Gwnaethom werthuso'r adnoddau ysgrifenedig a'r wybodaeth a oedd ar gael yn y practis ac roedd o safon uchel yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod taflenni Cymraeg yn gyfyngedig. Er enghraifft, roedd taflen wybodaeth y practis ar gael yn Saesneg yn unig. Rydym yn argymell y dylai'r practis werthuso'r maes hwn a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg pryd bynnag y bo modd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod adnoddau iaith Gymraeg yn cael eu gwerthuso a'u hyrwyddo yn y practis.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt. Gwnaethom arsylwi a chawsom ein hysbysu gan y staff eu bod yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd amserol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cytunodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Cadarnhaodd yr holl gleifion hefyd eu bod bob tro yn cael eu cynnwys cymaint ag y maent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ynglŷn â'u triniaeth unigol.

Roedd y cofnodion cleifion a samplwyd fel rhan o'r broses arolygu yn dangos bod hanesion meddygol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ym mhob apwyntiad. Roedd arwyddion clir i'r toiledau yn y practis. Roedd toiledau'r cleifion hefyd yn cynnwys mynediad at doiled anabl neillryw. Roedd yr holl doiledau yn cael eu cynnal at safon uchel ac yn lân.

### Hawliau pobl

Roedd polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y practis, ac roeddent yn ddilys ac yn briodol. Roedd mynediad i'r adeilad ar y llawr daear ac roedd yr holl ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr daear. Roedd pob drws a mynedfa i'r toiledau yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. Roedd gan y practis ei faes parcio ei hun a oedd yn cynnig digon o fannau parcio ar gyfer cleifion.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith mewn perthynas â rheoli cwynion. Roedd polisïau a gweithdrefnau cwynion a oedd yn gysylltiedig â thriniaeth y GIG a thriniaeth breifat. Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn

hysbysu pobl yn weithredol ynglŷn â'i weithdrefnau cwyno gan fod y dogfennau allweddol hyn yn cael eu hyrwyddo yn yr ardal aros.

Dywedodd llai na chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol pe bai angen gwneud hynny.

Dywedodd mwy na thri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y practis deintyddol wedi gofyn am eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir yno – er enghraifft, drwy holiaduron i gleifion.

Gwnaethom nodi bod gan y practis un polisi ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformiad. Gwnaethom argymell i'r practis y dylid rhoi polisïau ar wahân ar waith ar gyfer chwythu'r chwiban a thanberfformio gan y gallai hyn awgrymu, pe bai aelod o staff yn chwythu'r chwiban, fod tanberfformio yn gysylltiedig â'r datganiad hwnnw.

Gwnaethom nodi bod y practis yn cymryd cwynion o ddifrif ac yn eu defnyddio fel modd o ddysgu a gwella'r gwasanaeth. Roedd blwch sylwadau/awgrymiadau ar gael yn y practis er mwyn i'r cleifion gwblhau a rhoi adborth ynglŷn â'r practis a'i wasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn defnyddio'r sylwadau/awgrymiadau hyn ar gyfer gwelliannau yn unig. Argymhellwn fod y practis yn gwerthuso'r holl sylwadau a ddaw i law ac yn defnyddio'r canfyddiadau mewn adroddiad ansawdd blynyddol, a fydd yn hyrwyddo didwylledd a thryloywder. Bydd yr adroddiad ansawdd yn dangos y materion sydd wedi cael eu codi a'r dulliau sydd wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â'r rhain a'u datrys.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod polisïau ar wahân mewn perthynas â chwythu'r chwiban a thanberfformio.

Argymhellir bod y practis yn datblygu adroddiad ansawdd blynyddol, a ddylai fod ar gael i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel a chlinigol effeithiol i gleifion. Roedd gan y practis amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau a hyrwyddo gofal a thriniaeth effeithiol.

Roedd gan y practis brosesau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd amrywiaeth o offer dadebru a chyffuriau ar gael yn y practis pe bai claf yn mynd yn sâl iawn a bod angen triniaeth frys arno.

Nodwyd rhai gwelliannau mewn perthynas â'r arferion atal a rheoli heintiau a oedd ar waith.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant cleifion a'r staff a oedd yn gweithio yn y practis. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd bron pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol yn lân iawn. Gwelsom fod yr adeilad o safon uchel ar y tu mewn a'r tu allan, ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â hynny.

Fel y dywedwyd o'r blaen, roedd arwyddion wedi'u gosod ar gyfer y toiledau ac roedd y rhain yn lân yn ôl pob golwg. Er hynny, nid oedd unrhyw finiau cadachau mislif ar gael.

Roedd contractau ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus yn ddiogel. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod yn strategol o amgylch y practis rhag ofn bod tân. Roedd yr offer a ddefnyddir yn y practis yn cael eu monitro a'u cynnal a'u cadw'n unol â hynny.

Yr hyn y mae angen ei wella

Sicrhau bod biniau cadachau mislif yn cael eu darparu.

## Atal a rheoli heintiau

Ar y cyfan, roedd glendid y practis o safon uchel iawn. Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn dwt ac yn daclus. Roedd wynebau lloriau'r ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o groes-heintio.

Roedd yr holl offer wedi'u trefnu mewn modd strwythuredig. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y dylai'r practis sicrhau bod hambyrddau offer deintyddol yn cael eu cloi mewn blychau pan fo'r hambyrddau yn cael eu symud o un ystafell i'r llall. Bydd hyn yn lleihau'r posibilrwydd o groes-heintio ac yn gwella’r gwaith o atal a rheoli heintiau.

Gwnaethom nodi hefyd nad oedd bin gwastraff yn yr ystafell aros yn fin gwastraff a weithredir â throed. Roedd hyn yn peri risg bosibl o heintio.

Gwerthuswyd yr ystafell ddadheintio ac, ar y cyfan, gwnaethom nodi arferion diogel ac effeithiol. Roedd yr offer dadheintio a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis yn cael eu gwirio'n rheolaidd a'u cofnodi yn unol â hynny. Gwelsom fod cyflenwad digonol o offer diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid. Roedd system ar waith yn y practis ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel.

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi cael ei ddidoli i'r bagiau/cynwysyddion dynodedig yn unol â’r dull gwaredu cywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r practis werthuso a gwella'r arfer presennol o symud hambyrddau deintyddol o un ystafell i'r llall er mwyn lleihau croes-heintio.

Dylai'r holl finiau a ddefnyddir hyrwyddo arfer gorau a lleihau'r posibilrwydd o groes-heintio.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith gan y practis yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom fod y cofnodion yn dangos bod y tîm staff wedi cael hyfforddiant priodol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwympo/llewygu) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio'n mewn modd diogel a phriodol.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n agored i niwed a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Roedd y cofnodion a welwyd hefyd yn nodi bod y staff wedi cael hyfforddiant priodol a oedd yn gyfredol.

Wrth i ni werthuso'r prosesau recriwtio staff, gwnaethom nodi bod yr holl staff wedi cael gwiriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod yr holl aelodau perthnasol o staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd y gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis yn galluogi'r staff i godi pryderon gyda'r rheolwyr a byddai'r pryderon hyn yn cael eu cymryd o ddifrif ac yn derbyn sylw mewn modd diwyd.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr holl gyfarpar radiolegol yn cael ei gynnal ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, roedd yr holl staff perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

Roedd offer clinigol y practis o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn unol â hynny.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Cawsom ein hysbysu bod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn St David's Dental Care Ltd. Roedd cofnodion o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu dogfennu a'u cynnal.

Roedd archwiliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith pe bai angen. Roedd cofnodion o'r archwiliadau hyn yn cael eu cynnal a'u storio'n briodol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nododd trafodaethau â'r staff clinigol fod adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Yn ogystal â hyn, roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a oedd yn galluogi'r staff i drafod pynciau/nodweddion newydd megis canllawiau lleol a chenedlaethol a oedd wedi'u diweddaru. Roedd cofnodion o'r cyfarfodydd hynny'n cael eu dogfennu'n unol â hynny.

Roedd y practis wedi defnyddio matrics Deoniaeth Cymru yn 2008. Cawsom ein hysbysu mai ei fwriad oedd mynd trwy’r broses hon eto yn y dyfodol agos.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwnaethom nodi bod y trefniadau ar gyfer storio ffeiliau cleifion yn ddiogel ac yn sicr. Roedd sgriniau'r cyfrifiaduron wedi'u lleoli'n strategol er mwyn hyrwyddo preifatrwydd a chyfrinachedd gwybodaeth cleifion er mwyn lleihau'r posibilrwydd y byddai gwybodaeth yn cael ei gweld. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu data wedi cael eu rhoi ar waith gan St David's Dental Care Ltd hefyd er mwyn diogelu gwybodaeth.

### Cadw cofnodion

Buom yn adolygu sampl o gofnodion cleifion a gwblhawyd gan y deintyddion. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welwyd wedi'u cwblhau at safon dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai gwelliannau angenrheidiol ac mae angen i ymarferwyr ehangu'r dewisiadau a gynigir i gleifion yn ystod y cam cynllunio triniaeth er mwyn iddynt gynnwys y risgiau a'r manteision. Yn ogystal â hyn, mae angen i'r rhesymeg dros gynnal sganiau pelydr-X a'r adroddiadau amdanynt gael eu dogfennu'n glir yng nghofnodion y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Ehangu'r dewisiadau a gynigir i gleifion yn ystod y cam cynllunio triniaeth er mwyn iddynt gynnwys y risgiau a'r manteision.

Sicrhau bod y cyfiawnhad a'r adroddiadau mewn perthynas â radiograffau yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Ar y cyfan, mae St David's Dental Care Ltd yn wasanaeth trefnus sy'n cael ei reoli'n dda ac sydd â llinellau atebolrwydd clir. Mae mesurau clir a chadarn ar waith er budd y cleifion a'r staff. Mae angen gwerthuso'r prosesau ymsefydlu er mwyn eu gwneud yn fwy cadarn a chynhwysfawr. Mae'r holl staff yn derbyn arfarniadau blynyddol amserol.

Mae St David's Dental Care Ltd wedi creu a datblygu amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr a pherthnasol. Mae'r dogfennau hyn yn cynnig canllawiau clir a chymorth i'r staff er mwyn sicrhau bod eu perfformiad yn hyrwyddo arferion gorau. Roedd y staff wedi derbyn yr hyfforddiant a chymorth angenrheidiol er mwyn cyflawni eu swyddogaethau mewn modd cynhwysfawr a gwybodus.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir yn y practis. Mae rheolwr y practis yn goruchwylio'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd gydag arweiniad a chymorth gan y prif ddeintydd.

Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Gwelsom ychydig o dystiolaeth i gadarnhau bod y staff wedi darllen a deall rhai polisïau a gweithdrefnau ond rydym yn cynghori y dylid defnyddio dull mwy ffurfiol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gwbl ymwybodol o'r polisïau a gweithdrefnau allweddol a bod hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Datblygu dull ffurfiol i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall y polisïau a gweithdrefnau allweddol a bod hyn yn cael ei ddogfennu yn unol â hynny.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystiolaeth mewn rhai o ffeiliau'r staff mewn perthynas â'r broses sefydlu. Gwnaethom nodi bod angen gwerthuso'r agwedd hon er mwyn ei gwneud yn broses gadarn a safonol. Gwnaethom nodi bod rhai o'r staff wedi llofnodi rhai agweddau ar eu hyfforddiant sefydlu, ond nid oedd hyn wedi'i gwblhau mewn modd cynhwysfawr. Nododd y cofnodion fod arfarniadau blynyddol ffurfiol wrthi'n cael eu cynnal.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom sgwrsio ag amrywiaeth o staff. Dywedodd yr holl staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu galluogi i godi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr. Roedd y staff yn uchel eu clod o ran y tîm staff ymroddedig a'r ethos o gydweithio a oedd yn cael ei weithredu yn y practis. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff a chanfuom fod y staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd a argymhellwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a gwelsom fod yswiriant indemniad yn bresennol. Adolygwyd cofnodion y staff yn ystod yr arolygiad ac roedd y rhain yn dangos tystiolaeth glir fod yr holl staff clinigol wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B, i amddiffyn cleifion a hwythau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai prosesau sefydlu fod yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n gyson ar gyfer holl aelodau newydd o staff.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol'

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: St David's Dental Care Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: 14 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle roedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: St David's Dental Care Ltd

## Dyddiad yr arolygiad: 14 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod adnoddau Cymraeg yn cael eu gwerthuso a'u hyrwyddo o fewn y practis. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Mae J. Johnson wedi gwerthuso'r adnoddau Cymraeg ac mae gwelliannau wedi dechrau. Bydd yr holl hysbysiadau yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Bydd taflen wybodaeth y practis ar gael yn Gymraeg cyn gynted ag y bydd y fersiwn Saesneg wedi cael ei chymeradwyo gan dîm cofrestru AGIC. | J. Johnson | 31/05/2018 |
| Argymhellir bod y practis yn datblygu adroddiad ansawdd blynyddol, a ddylai fod ar gael i gleifion sydd wedi'u cofrestru gyda'r practis. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae J. ac E. Johnson wedi cwblhau adroddiad ansawdd blynyddol ar gyfer 2017 yn seiliedig ar arolygon cleifion a'r blwch awgrymiadau. Mae bellach wedi | J. Johnson | Cwblhawyd 26/03/18 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | cael ei roi yn yr ystafell aros. | | |
| Sicrhau bod polisïau ar wahân mewn perthynas â chwythu'r chwiban a thanberfformio. | Safon 2.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Mae polisïau chwythu'r chwiban a thanberfformio ar wahân bellach wedi cael eu llunio, mae'r staff wedi cael eu hailhyfforddi, ac mae taflen hyfforddi wedi cael ei llofnodi. | J. Johnson | Cwblhawyd 23/03/18 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Sicrhau bod biniau cadachau mislif yn cael eu darparu. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (6) | Mae bin cadachau mislif wedi cael ei ddarparu gan PHS a'i ychwanegu at ein contract gyda'r cwmni. | J. Johnson | Cwblhawyd 26/03/18 |
| Dylai'r practis werthuso a gwella'r arfer presennol o symud hambyrddau deintyddol o un ystafell i'r llall er mwyn lleihau croes-heintio. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio<br><br>Rheoliadau | Mae'r system o symud hambyrddau wedi cael ei gwerthuso, mae bocsys trosglwyddo bellach wedi cael eu darparu, ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant o ran sut i'w defnyddio. | J. Johnson | Cwblhawyd 26/03/18 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylai'r holl finiau a ddefnyddir annog arfer gorau a lleihau'r posibilrwydd o groes-heintio. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 14 (6) | Mae'r hyfforddiant hwn wedi cael ei ddogfennu a'i lofnodi gan yr holl staff clinigol.<br><br>Rhoddwyd bin gwastraff a weithredir â throed yn yr ystafell aros ar ddiwrnod yr arolygiad. Mae'r holl finiau gwastraff yn y practis bellach yn finiau a weithredir â throed. | J. Johnson | Cwblhawyd 14/12/17 |
| Ehangu'r dewisiadau a gynigir i gleifion yn ystod y cam cynllunio triniaeth er mwyn iddynt gynnwys y risgiau a'r buddion.<br><br>Sicrhau bod y cyfiawnhad a'r adroddiadau mewn perthynas â radiograffau yn cael eu cofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. | 3.5 Cadw cofnodion<br><br>Safon 4.1.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Rydym bellach wedi archwilio'r holl gofnodion cleifion i asesu'r cofnodion o gynllunio triniaeth ac mae hyn yn cynnwys risgiau a manteision yn ogystal â chyfiawnhad ac adroddiadau mewn perthynas â radiograffau. Mae hyn wedi sefydlu gwaelodin ar gyfer hyfforddi staff, sydd wedi cael ei wneud. Byddwn yn ail-archwilio mewn tri mis er mwyn asesu gwelliannau. | J. Johnson | Archwiliwyd 27/03/18<br><br>Ail-archwilio 27/06/18 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Datblygu dull ffurfiol er mwyn dangos bod yr holl staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau allweddol a bod hyn yn cael ei | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Mae taflenni hyfforddiant wedi'u llofnodi bellach wedi cael eu hychwanegu at ragor o bolisïau, gan gynnwys diogelu. | J. Johnson | Cwblhawyd 23/02/18 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddogfennu yn unol â hynny. | | | | |
| Dylai prosesau sefydlu fod yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n gyson ar gyfer holl aelodau newydd o'r staff. | 7.1 Gweithlu | Mae proses sefydlu newydd wedi cael ei llunio a'i defnyddio. Bydd y staff yn llofnodi ar bob cam wrth iddo gael ei gwblhau, gyda sylwadau lle bo angen. | J. Johnson | Cwblhawyd 05/03/18 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):S. JANE JOHNSON**

**Swydd: Deintydd**

**Dyddiad:29/03/2018**